Chwaraeon RhCT

Oliver-May, Gracie-Leigh, Stella-Jean and Millie
Ysgol Gynradd Cwmaman

Mae'r Llysgenhadon Ifainc yma'n bresenoldeb gwych yng nghymuned eu hysgol. Maen nhw'n rhoi o'u hamser i helpu yn y dosbarth Meithrin yn gyson, gan ddangos caredigrwydd ac amynedd. Mae ymgymryd â'r rôl newydd hon, a'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â hi, wedi rhoi hwb enfawr i'w hyder, gan eu helpu i ddatblygu eu llais a'r ffydd sydd ganddyn nhw yn eu galluoedd eu hunain.

Ers mynychu Cynhadledd y Llysgenhadon Ifainc, maen nhw wedi cynnal clwb ar ôl ysgol, 'Mae Symud yn Bwysig', i blant ym Mlynyddoedd 5 a 6. Maen nhw wedi dysgu amrywiaeth o gemau, gan gynnwys gemau maen nhw wedi'u creu eu hunain, gan annog y disgyblion i weithio fel tîm a mwynhau gweithgareddau hwyl. Mae'r plant sy'n mynychu'r clwb wedi mwynhau dysgu gemau newydd, darganfod talentau cudd, a gwella eu sgiliau. Yn benodol, maen nhw wedi mwynhau pêl fainc a phêl-rwyd. Mae'r gweithgareddau wedi bod yn ddifyr, yn hwyl, ac yn gynhwysol.

"Rydyn ni wrth ein bodd yn helpu eraill i ddysgu gemau newydd a gweld pawb yn mwynhau bod yn heini gyda'i gilydd. Mae'n ein gwneud ni'n falch o arwain ac ysbrydoli ein ffrindiau".

"Mae'n gyffrous, roeddwn i'n mwynhau gwneud ffrindiau newydd, ac roeddwn i'n mwynhau'r cyfrifoldeb o addysgu gemau newydd".

LLYSGENNAD IFANC Y MIS - RHAGFYR 2025

Chwaraeon RhCT
SportRCT
sportwales
chwaraeoncymru
YOUTH SPORT TRUST
RHONDDA CYNON TAF